

## Pub is the Hub Case Study

Y Glanyrafon Arms, Talgarreg, Ceredigion, Llandysul, Dyfed SA44 4ER



Mae Tafarn Glanyrafon Arms ym mhentref Talgarreg. Tref glan y môr Aberaeron ydy'r dref agosaf, rhyw naw milltir o Dalgarreg. Mae tua thri chant o bobl yn byw yn y pentref ac mae yno neuadd bentref, eglwys a siop a swyddfa'r post symudol sydd ill dau yn mynd yno ddwywaith yr wythnos.

Mae teulu Hefin Evans yn berchen ar Dafarn Glanyrafon Arms ers 1954; fe brynwyd y dafarn gan y teulu pan oedd Hefin yn dair oed. Bu i Hefin gwrdd â, a phriodi, Megan (sydd wedi ei hyfforddi fel nyrs) ac fe gymeron nhw'r awenau gan rieni Hefin ym 1976. Mae Hefin yn dweud bod Tafarn Glanyrafon yn dafarn gymunedol wych, mae e a Megan yn cefnogi'r pentref yn frwd ac mae'r bobl leol yn eu cefnogi hwythau hefyd. Mae'r dafarn yn trefnu digwyddiadau elusennol yn rheolaidd, ac maen nhw wedi codi hyd at ddeng mil ar hugain o bunnoedd mewn diwrnod ar gyfer elusen yr Ambiwylans Awyr, elusennau Cancr ac elusennau lleol.

Mae Tafarn Glanyrafon Arms wedi derbyn clod am y gwaith elusennol ardderchog maen nhw'n wneud, yn cynnwys ennill teitl "Tafarn y Flwyddyn" de Cymru ym 1999 a dod yn ail yng nghystadleuaeth Tafarn gyda Chalons Cymdeithas Bragwyr De Cymru ym 1994.

Mae'r dafarn yn cynnig gwasanaeth torri gwallt bob mis; mae rhywun yn mynd yno i drin gwallt ac mae rhwng pump a phedwar ar ddeg o gwsmeriaid bob tro.

Roedd signal diwifr gwael yn broblem yn yr ardal. Penderfynodd Hefin a Megan yr hoffon nhw wella'r signal yn y dafarn fel eu bod nhw'n gallu cynnig y gwasanaeth hwnnw i bobl sy'n dod i'r dafarn, yn ogystal ag i fudiadau sy'n chwilio am fan cyfarfod.

Cysylltodd Hefin a Megan â'r Dafarn yw'r Galon ac yna cawsan nhw wybod bod Grant Buddsoddi Microfusnesau Ceredigion ar gael. Cawsan nhw hefyd drafod yr opsiynau oedd ar gael iddyn nhw.

Defnyddiodd Hefin a Megan yr arian grant i wella'r signal diwifr, yn ogystal â phrynu cyfrifiadur, sgrin a system sain y maen nhw'n rhoi eu benthyg yn rhad ac am ddim i fudiadau cymunedol sy'n cyfarfod yno. Hyd yma, mae'r Criw Creiriau (Vintage Club) a'r Pwyllgor Rasio lleol yn cyfarfod yn y dafarn yn fisol.

Mae'r adborth yn gadarnhaol iawn, ac mae mwy o bobl yn dod i'r dafarn. Mae'r ymwelwyr cyson hefyd yn falch o gael mwy o adnoddau nag o'r blaen.

**Cyfanswm cost y prosiect £10,299**

**Grant Cronfa Fuddsoddi Microfusnesau Ceredigion £3556.79**

I wybod mwy, cysylltwch â ni ar 01423 546165 neu anfonwch e-bost at [enquiries@pubisthehub.org.uk](mailto:enquiries@pubisthehub.org.uk)